# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-02-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 17 Ionawr 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Jeff Cuthbert

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-01-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai hwn fyddai ei gyfarfod diwethaf a diolchodd iddynt am eu gwaith. Dymunodd bob hwyl iddynt gyda'u cyfarfodydd yn y dyfodol. Ymatebodd yr Aelodau drwy ddiolch iddo am Gadeirio'r Pwyllgor mewn "ffordd gyfeillgar a chwrtais iawn".

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1194 – The Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) (Amendment) Regulations 2005

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau fod cyfreithwyr y Gweinidog wedi cytuno y dylid ail-lunio'r Rheoliadau'n ddwyieithog ac y gellir ychwanegu brawddeg i egluro hynny ar ddiwedd yr adroddiad. Cam i'w gymryd: Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc. Ar sail yr ychwanegiad hwn, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1195 – The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No. 2) Regulations 2005

### LC1196 – The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) (No. 2) Regulations 2005

### LC1200 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006

**Camau i'w cymryd**

**4.1 LC1194 – The Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) (Amendment) Regulations 2005**

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Cyfreithiol newid yr adroddiad i nodi bod cyfreithwyr y Gweinidog wedi cytuno y dylid ail-lunio'r Rheoliadau'n ddwyieithog.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Atgoffodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau eu bod wedi trafod LC1192 - "Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006" yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2006. Eglurodd fod y Rheoliadau wedi cael eu hailgyflwyno i'r Pwyllgor gan fod y dyddiad dod i rym wedi newid. Gan nad oedd y newid hwn wedi arwain at bwynt i'w adrodd, cynigiodd y dylai adroddiad y Pwyllgor aros yr un peth ag o'r blaen. Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig hwn.

5.2 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Ionawr 2006.